

## Gwobrau Chwaraeon Ceredigion 2017

### Meini Prawf ac Amodau a Thelerau pob Categori

Categori	Meini Prawf ac Amodau a Thelerau
Hyfforddwr y Flwyddyn	<p>Dyma wobwr fawr ei bri sy'n rhoi clod i'r bobl hynny yn ein sir sy'n gwirfoddoli fel hyfforddwyr chwaraeon. Mae'r wobwr yn cydnabod yr amser a'r ymrwymiad maent yn ei roi a'r dylanwad a gânt ar bobl eraill sy'n ymwneud â chwaraeon ac yn datblygu a gwella ar hyd y ffordd.</p> <p>Bydd yr enillydd yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymwysterau hyfforddi ac ymrwymiad i roi o'i (h)amser</li> <li>• Cynnydd a chyflawniad y perfformiwr/tîm y mae'n ei hyfforddi</li> <li>• Tystiolaeth o weithio yn y gymuned</li> <li>• Tystiolaeth o'r effaith y mae'r hyfforddwr wedi'i gael ar hwyluso mynediad ehangach at chwaraeon drwy hyfforddiant</li> <li>• Tystiolaeth o'r effaith gyffredinol y mae'r hyfforddwr wedi'i gael ar y cyfranogwyr / perfformwyr y mae'n eu hyfforddi (gan gynnwys datblygiad personol, iechyd a llesiant a chyrraedd addysgol).</li> </ul> <p><i>Mae'r categori hwn wedi'i neilltuo ar gyfer gwirfoddolwyr yn unig.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid i'r enwebiadau ddod gan gynrychiolydd corff chwaraeon swyddogol, clwb, cymdeithas neu ysgol.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid bod y rhai a enwebir yn byw yng Ngheredigion neu'n perthyn i ysgol, clwb neu gymdeithas yn y sir.</i></p>
Arwr Tawel	<p>Cyflwynir y wobwr hon i rywun sydd wedi rhoi o'i (h)amser i ddatblygu neu gyfrannu at chwaraeon cymunedol yng Ngheredigion ar hyd nifer o flynyddoedd.</p> <p>Bydd yr enillydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi dangos ymrwymiad ar hyd ei (h)oes i wella chwaraeon lleol mewn unrhyw ffordd – boed hynny'n hyfforddi, weinyddu neu ddyfarnu, golchi crysau, gyrru bws y tîm, paratoi lluniaeth neu hyd yn oed wneud y trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r cae.</li> <li>• Wedi chwarae rhan allweddol wrth recriwtio pobl eraill i roi help llaw er mwyn galluogi'r clwb neu'r gymdeithas chwaraeon i ffynnu.</li> <li>• Wedi dangos esiampl ac annog eraill i gymryd rhan mewn</li> </ul>

	<p>chwaraeon</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi sefydlu rhaglenni neu adael gwaddol sydd wedi galluogi clwb neu gymdeithas chwaraeon i barhau.</li> <li>• Wedi cael effaith ehangach bendant ar y mabolgampwyr y bu'n eu hyfforddi neu'n gweithio â nhw (er enghraifft, o ran datblygiad personol, iechyd a lles a llwyddiant addysgol)</li> </ul> <p><i>Mae'r categori hwn wedi'i neilltuo ar gyfer gwirfoddolwyr yn unig.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid i'r enwebiadau ddod gan gynrychiolydd corff chwaraeon swyddogol, clwb, cymdeithas neu ysgol.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid bod y rhai a enwebir yn byw yng Ngheredigion neu'n perthyn i ysgol, clwb neu gymdeithas yn y sir.</i></p>
<p>Gwirfoddolwr Chwaraeon i Bobl Anabl y Flwyddyn</p>	<p>Maent yn rhoi o'u hamser i arwain mwy o bobl anabl mewn chwaraeon, eu hysbrydoli a'u cefnogi – boed hynny drwy ddyfarnu mewn gemau, cynnal digwyddiadau, gweinyddu, hyfforddi, trefnu neu gefnogi fel rhan o fudiadau cenedlaethol a chlybiau chwaraeon cymunedol i bobl anabl.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi dangos esiampl ac annog eraill i gymryd rhan mewn chwaraeon.</li> <li>• Dangos esiampl, annog amrywiaeth o bobl i gymryd rhan, defnyddio dulliau blaengar wrth ymarfer, gwneud y pethau angenrheidiol.</li> <li>• Tystiolaeth o'r effaith ehangach ar y cyfranogwyr (er enghraifft, o ran datblygiad personol, iechyd a lles a llwyddiant addysgol).</li> <li>• Tystiolaeth o'r effaith y mae'r unigolyn wedi'i gael ar alluogi mwy o bobl anabl i gymryd rhan mewn chwaraeon</li> <li>• Tystiolaeth o roi cyfleoedd a/neu gymorth ymroddgar mewn clwb neu gymdeithas chwaraeon yn y brif ffrwd, neu glwb neu gymdeithas chwaraeon yn benodol ar gyfer pobl anabl.</li> </ul> <p><i>Mae'r categori hwn wedi'i neilltuo ar gyfer gwirfoddolwyr yn unig .</i></p> <p><i>Mae'n rhaid i'r enwebiadau ddod gan gynrychiolydd corff chwaraeon swyddogol, clwb, cymdeithas neu ysgol.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid bod y rhai a enwebir yn byw yng Ngheredigion neu'n perthyn i ysgol, clwb neu fudiad yn y sir.</i></p>
<p>Gwirfoddolwr 5x60 y flwyddyn</p>	<p>Cyflwynir y wobr hon i rywun sydd, ym marn y panel o feirniaid, wedi gwneud cyfraniad arbennig at y rhaglenni 5x60 a Phobl Ifanc Egniol mewn ysgol neu glwb cymunedol yng Ngheredigion yn ystod blwyddyn academiaidd 2016-17. Bydd y Panel yn chwilio</p>

	<p>am rywun sydd wedi dangos ymroddiad at hyrwyddo'r rhaglenni 5x60 a Phobl Ifanc Egniol i blant, a recriwtio a/neu fentora rhieni a gwirfoddolwyr. Bydd yr enillydd hefyd wedi hyrwyddo Chwarae Teg ym mha bynnag gamp mae'n cymryd rhan ynddi.</p> <p><i>Mae'r categori hwn wedi'i neilltuo ar gyfer gwirfoddolwyr yn unig.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid i'r enwebiadau ddod gan gynrychiolydd corff chwaraeon swyddogol, clwb, cymdeithas neu ysgol.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid bod y rhai a enwebir yn byw yng Ngheredigion neu'n perthyn i ysgol, clwb neu gymdeithas yn y sir.</i></p>
<p>Llysgennad Ifanc Efydd y Flwyddyn</p>	<p>Cyflwynir y wobr hon i Llysgennad Ifanc Efydd sydd, ym marn y panel o feirniaid, wedi gwneud cyfraniad arbennig at y rhaglenni Pobl Ifanc Egniol fel Llysgennad Ifanc mewn ysgol GYNRADD yng Ngheredigion yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17. Mae'n rhaid i bawb sy'n cael ei enwebu ddangos ymroddiad at y gamp/ysgol/clwb. Bydd y panel hefyd yn chwilio am Llysgennad Ifanc Efydd sydd wedi darparu clybiau cinio yn selog a hyrwyddo chwaraeon a lles disgyblion yr ysgol.</p> <p><i>Mae'r categori hwn wedi'i neilltuo ar gyfer Llysgenhadon Ifanc Efydd yn unig. Mae'n rhaid i'r enwebiadau ddod o aelod o staff ysgol yn unig. Gall ysgolion enwebu Llysgenhadon Ifanc Efydd yn unigol neu fesul pâr.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid enwebu rhywun sydd eisoes yn Llysgennad Ifanc Efydd mewn Ysgol Uwchradd yng Ngheredigion.</i></p>
<p>Llysgennad Ifanc y Flwyddyn</p>	<p>Cyflwynir y wobr hon i Llysgennad Ifanc Arian neu Aur sydd, ym marn y panel o feirniaid, wedi gwneud cyfraniad arbennig at raglenni 5x60 a Phobl Ifanc Egniol mewn ysgol uwchradd neu glwb cymunedol yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17. Bydd y Panel yn chwilio am Llysgennad Ifanc sydd wedi dangos ymroddiad at hyrwyddo'r rhaglenni 5x60 a Phobl Ifanc Egniol i blant, a recriwtio a/neu fentora rhieni a gwirfoddolwyr. Bydd yr enillydd hefyd wedi hyrwyddo Chwarae Teg ym mha bynnag gamp mae'n cymryd rhan ynddi.</p> <p><i>Mae'r categori hwn wedi'i neilltuo ar gyfer Llysgenhadon Ifanc Arian ac Aur yn unig.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid i'r enwebiadau ddod gan gynrychiolydd corff chwaraeon swyddogol, clwb, cymdeithas neu ysgol.</i></p> <p><i>Mae'n rhaid enwebu rhywun sydd eisoes yn Llysgennad Ifanc Arian/ Aur mewn Ysgol Gynradd yng Ngheredigion.</i></p>